Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

Awst 2023 Canfyddiadau Arolwg Panel:

Adrannau Argyfwng, Ymgyrchoedd, Costau Byw, Iechyd Deintyddol, Sgrinio’r Coluddyn a Rheoli Pwysau Ôl-enedigol

Cyhoeddwyd: Hydref 2023

# Cefndir

- Mae **Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus** yn banel cenedlaethol o drigolion Cymru sy’n 16+ oed a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i alluogi **ymgysylltiad rheolaidd â’r cyhoedd** i lywio polisïau ac ymarfer iechyd y cyhoedd.
- Cynlluniwyd y panel i gynrychioli poblogaeth Cymru yn gyffredinol yn ôl oedran, rhyw, amddifadedd, ethnigrwydd a bwrdd iechyd.
- Mae aelodau'r cyhoedd yn cael eu recriwtio i'r panel gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ac yna'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolygon rheolaidd i roi cipolwg ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol.
- Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o arolwg Awst 2023 sy’n cwmpasu:
  - **Adrannau Argyfwng**
  - **Ymgyrchoedd**
  - **Costau Byw**
  - **Iechyd Deintyddol**
  - **Sgrinio’r Coluddyn**
  - **Rheoli Pwysau Ôl-enedigol**





- Rydym yn ddiolchgar iawn i drigolion Cymru sydd yn rhoi o’u hamser gwerthfawr i gymryd rhan yn y panel.

# Trosolwg Methodolegol

- Ymgymerwyd â recriwtio cychwynnol i banel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (Tachwedd 2022-Ionawr 2023) dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

- Mae recriwtio i'r panel yn barhaus a gall unigolion gofrestru drwy wefan y Panel unrhyw bryd. Yn seiliedig ar sgrinio demograffig cychwynnol, caiff unigolion naill ai eu recriwtio'n uniongyrchol i'r panel neu eu gwahodd i ymuno â rhestr aros os yw'r cwota ar gyfer eu proffil demograffig yn llawn.

- Ar hyn o bryd, gwahoddir aelodau'r panel i gwblhau arolwg bob dau fis, naill ai ar-lein neu dros y ffôn.

- Yn ystod cyflwyno pob arolwg, ymgymerir â chyfranogiad targedig ychwanegol trwy gyfweliadau wyneb yn wyneb a hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol i gynyddu cynrychioldeb sampl yn ôl yr angen.

- Ni chynhigir unrhyw gymhellion ariannol ar gyfer cyfranogiad.

- Oherwydd bod y Panel wedi'i ddewis yn rhannol ei hun ac yn canolbwyntio ar bynciau iechyd y cyhoedd, gallai'r sampl gael ei effeithio gan duedd tuag at drigolion sydd â mwy o ddiddordeb mewn pynciau iechyd cyhoeddus a materion gofal iechyd. Dylid ystyried hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau.

- Ceir dadansoddiad demograffig o aelodau'r panel a wahoddwyd i gwblhau'r arolwg ac o'r 1,113 o gyfranogwyr a gwblhaodd yr arolwg ym mis Awst 2023 yn yr Atodiad.

- Oni nodir yn wahanol, mae data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu demograffeg y boblogaeth genedlaethol yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.

- **Ceir rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg yn yr Atodiad.**

# Pwyntiau Cryno

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

- Cymerodd 1,113 o bobl ran yn arolwg mis Awst 2023 (1st – 31st Awst 2023).

## Adrannau Argyfwng

- Cytunodd 61% o bobl (cytunodd 25% yn gryf) y byddent yn teimlo'n ddiogel mewn Adran Argyfwng yng Nghymru.
- Dywedodd 40% o bobl eu bod wedi bod i Adran Argyfwng yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf, naill ai fel claf neu i fynd yno gyda chlaf.
- Cytunodd 86% o bobl (cytunodd 41% yn gryf) y byddai staff yr Adran Argyfwng yn eu trin â charedigrwydd a pharch.

## Ymgyrchoedd

- Dywedodd 79% o bobl eu bod wedi clywed am y prawf F.A.S.T. ar gyfer darganfod strôc.
- Dywedodd 89% o bobl eu bod yn gwybod mai'r cam cyntaf i'w gymryd wrth weld unrhyw arwyddion o strôc yw ffonio 999.

## Iechyd Deintyddol

- Dywedodd 71% o bobl fod eu hiechyd deintyddol yn dda (dywedodd 16% o'r rheini fod eu hiechyd deintyddol yn dda iawn).
- Dywedodd 27% o bobl nad oeddent wedi mynd i apwyntiad deintyddol yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Sgrinio'r Coluddyn

- Cytunodd 90% o bobl (cytunodd 69% yn gryf) y byddent yn cwblhau ac yn dychwelyd prawf sgrinio'r coluddyn drwy'r post pe byddai prawf yn cael ei anfon atynt.
- Dywedodd 81% o bobl gymwys (55-74 oed) eu bod wedi derbyn a dychwelyd pecyn sgrinio'r coluddyn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

## Costau Byw

- Dywedodd 23% o bobl eu bod yn pryderu 'llawer' am eu sefyllfa ariannol yn hydref 2023. Cynyddodd hyn i 42% ar gyfer gaeaf 2023/24.
- Dywedodd 29% o bobl eu bod yn cwtogi ar gawodydd/cael bath poeth a'u bod yn cwtogi ar olchi dillad, a dywedodd 15% o bobl eu bod yn cwtogi ar hylendid deintyddol o ganlyniad i gostau byw cynyddol.

## Rheoli Pwysau

- Mae 69% o bobl yn meddwl y dylai gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gael sgwrs ynghylch pwysau iach gyda menyw yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl iddi roi genedigaeth.

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales


GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Adrannau Argyfwng

Mae Adrannau Argyfwng yn darparu gofal 24 awr ar gyfer salwch ac anafiadau difrifol sydd angen triniaeth ddwys ar unwaith.


# Adrannau Argyfwng

**Pryd oedd y tro diwethaf i chi ymweld ag Adran Achosion Brys yng Nghymru yn glaf neu gyda rhywun arall a oedd yn glaf?***





*Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

## Pe baech chi'n mynd i Adran Achosion Brys, sawl munud yn eich barn chi sy'n dderbyniol i aros i gael eich asesu (brysbennu) i ddechrau ar ôl cyrraedd?*




*Gwell gennyf beidio â dweud: 2%

**Pe baech chi'n mynd i Adran Achosion Brys, faint o oriau ydych chi'n meddwl sy'n dderbyniol i aros ar ôl i'r asesiad cychwynnol gael ei adolygu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol?***




*Gwell gennyf beidio â dweud: 2%

# Adrannau Argyfwng

## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch sut rydych chi'n credu y byddech chi'n derbyn gofal mewn Adran Achosion Brys yng Nghymru?*

| | Anghytuno 'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn i'n teimlo'n ddiogel mewn Adran Achosion Brys yng Nghymru | 6% | 13% | 20% | 36% | 25% |
| Byddwn yn cael fy asesu (brysbennu) i ddechrau gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol mewn modd amserol | 8% | 17% | 14% | 38% | 23% |
| Byddwn yn cael fy adolygu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a fyddai'n cynllunio fy ngofal a'm triniaeth mewn modd amserol | 9% | 20% | 14% | 35% | 22% |
| Byddai'r gofal a'r driniaeth y byddwn yn eu derbyn yn diwallu fy anghenion | 5% | 10% | 15% | 43% | 27% |
| Ni fyddai fy nodweddion personol (e.e. oedran, ethnigrwydd, rhywioldeb) yn effeithio ar fy ngofal a'm triniaeth | 5% | 5% | 11% | 36% | 42% |
| Byddai staff yn yr Adran Achosion Brys yn fy nhrin â charedigrwydd a pharch | 3% | 3% | 8% | 45% | 41% |

*Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad : ≤1%

# Adrannau Argyfwng


**Mae gennym ddiddordeb mewn deall sut y gellid gwella profiad pobl o amgylchedd yr Adran Achosion Brys. Nodwch pa mor bwysig fyddai'r nodweddion canlynol i chi, gan ddefnyddio graddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn golygu 'Ddim yn bwysig o gwbl' a 10 yn golygu 'Pwysig iawn'.***

| | 0 (Ddim yn bwysig o gwbl) | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 (Pwysig iawn) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth glir ar sgriniau digidol sy'n rhoi diweddariadau rheolaidd (e.e. amseroedd aros) | 1% | <1% | 1% | <1% | 1% | 5% | 6% | 9% | 19% | 13% | 45% |
| Gwybodaeth glir gan staff sy'n rhoi diweddariadau rheolaidd | 1% | <1% | <1% | 1% | 1% | 3% | 5% | 9% | 17% | 14% | 50% |
| Argaeledd cyfleusterau megis dŵr, bwyd a thoiledau | 0% | 0% | <1% | <1% | 1% | 2% | 3% | 9% | 16% | 14% | 54% |
| Mynediad i fannau aros cyfforddus megis seddi meddal, blancedi, a chlustogau | 1% | <1% | 1% | 2% | 3% | 9% | 9% | 17% | 18% | 10% | 29% |
| Staff sy'n gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt | 0% | 0% | 0% | <1% | <1% | 1% | 3% | 7% | 16% | 14% | 58% |

*Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad : ≤1%

# Adrannau Argyfwng

**Mae gwasanaethau gofal iechyd eraill ar gael yng Nghymru i gael mynediad at ofal yn hytrach nag ymweld ag Adran Achosion Brys. Cyn heddiw, pa rai o'r canlynol oeddech chi'n ymwybodol ohonynt? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)***





*Dim o’r rhain: 1%; Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

# Ymgyrchoedd

Gofynnwyd i gyfranogwyr am eu hymwybyddiaeth o ddwy ymgyrch gyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n canolbwyntio ar y prawf N.E.S.A Strôc a Diogelwch yr Haf. Strôc yw pedwerydd prif achos marwolaeth yng Nghymru ac mae'n cael effaith hirdymor sylweddol ar oroeswyr. Mae'r prawf N.E.S.A yn ffordd gofiadwy o adnabod yr arwyddion mwyaf cyffredin o strôc ac ystyr yr acronym N.E.S.A yw: Nam ar yr wyneb (N), Estyn (E), Siarad (S), a Amser (A).

# Ymgyrchoedd

## Cyn heddiw, oeddech chi wedi clywed am y prawf N.E.S.A?*





*Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

# Ymgyrchoedd

Gofynnwyd i’r cyfranogwyr a ddywedodd eu bod wedi clywed am y prawf N.E.S.A (n=897):


**Cyn heddiw, pa lythrennau o'r acronym N.E.S.A oeddech chi'n gwybod eu hystyr?***




*Data heb eu pwysoli; Gwell gennyf beidio â dweud: ≤1%

# Ymgyrchoedd


## Oeddech chi'n gwybod mai'r cam cyntaf i'w wneud pan welwch chi unrhyw arwyddion o strôc yw ffonio 999?*




*Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

# Ymgyrchoedd

## Ydych chi wedi gweld unrhyw negeseuon gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ddiweddar am ffyrdd o...?*




*Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer y ddau gwestiwn: <1%

# Ymgyrchoedd

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld yr ymgyrch Mwynhewch yr Haf yn Ddiogel (n=191):

**Pa rannau o'r wybodaeth ganlynol o'r ymgyrch 'Mwynhewch yr Haf yn Ddiogel' ydych chi wedi'u gweld? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)***


| | |
|---|---|
| Haul, bwyd neu ddiogelwch dŵr | 82% |
| Yn barod ar gyfer y penwythnos | 30% |
| Diogelwch gwyliau | 51% |
| Ymddygiadau amddiffynnol i gadw'n ddiogel rhag firysau | 41% |

*Data heb eu pwysoli; Gwell gennyf beidio â dweud: ≤1%

# Ymgyrchoedd


Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld yr ymgyrch Mwynhewch yr Haf yn Ddiogel (n=189):

**Ble gwelsoch chi negeseuon 'Mwynhewch yr Haf yn Ddiogel'? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)***




Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld yr ymgyrch Mwynhewch yr Haf yn Ddiogel mewn mannau heblaw gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru (n=164):

**A wnaethoch chi glicio drwodd i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r lleoliadau hynny i weld rhagor o wybodaeth?#**





*Data heb eu pwysoli; Gwell gennyf beidio â dweud: 5%; #Data heb eu pwysoli; Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Ymgyrchoedd

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld yr ymgyrch Mwynhewch yr Haf yn Ddiogel (n=191):

**Pa mor ddefnyddiol, os o gwbl, oedd negeseuon Mwynhewch yr Haf yn Ddiogel i chi?***




*Data heb eu pwysoli

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Costau Byw

# Costau Byw

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales


## Wrth feddwl am gyllid eich cartref, pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu orau eich sefyllfa bresennol?*




*Ddim yn gwybod: 1%; Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Pa mor bryderus, os o gwbl, ydych chi am eich sefyllfa ariannol dros y tymhorau canlynol?*




*Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: 1%

# Costau Byw

**Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, sy'n bryderon ariannol i'ch aelwyd chi y mis hwn? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

| | |
|---|---|
| Costau bwyd | 57% |
| Costau ynni | 61% |
| Costau car/trafnidiaeth gyhoeddus | 33% |
| Costau tai (taliadau rhent/morgais) | 28% |
| Costau nwyddau ymolchi a chynhyrchion hylendid | 17% |
| Costau ysgol neu ofal plant | 8% |
| Arall | 5% |
| Nid oes gennyf unrhyw bryderon ariannol ar gyfer fy aelwyd y mis hwn | 27% |

# Costau Byw

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## A fu'n rhaid i'ch aelwyd dorri yn ôl ar unrhyw un o'r canlynol oherwydd costau byw cynyddol? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

| | |
|---|---|
| Siampŵ neu sebon | 11% |
| Cawodydd poeth neu fath | 29% |
| Golch | 29% |
| Hylendid deintyddol | 15% |
| Cynhyrchion mislif | 4% |
| Eli haul | 10% |
| Cynhyrchion hylendid eraill | 4% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: 5%


Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Iechyd Deintyddol

# Iechyd Deintyddol

**Sut byddech chi'n disgrifio eich iechyd deintyddol presennol? Mae hyn yn cynnwys cyflwr eich ceg, dannedd, deintgig, ac, os yw'n berthnasol, dannedd gosod.***




*Gwell gennyf beidio â dweud: 2%

# Iechyd Deintyddol

## Pe baech chi'n mynychu archwiliadau deintyddol y GIG, pa un o'r canlynol fyddai'n well gennych?*

| | |
|---|---|
| Hoffwn i gael archwiliadau deintyddol yn rheolaidd ar gyfnodau penodol, ni waeth pa mor dda neu ddrwg yw fy iechyd deintyddol | 61% |
| Hoffwn i gael mynediad at archwiliadau deintyddol pan fyddaf yn teimlo bod angen i mi (h.y. dim archwiliadau rheolaidd) | 13% |
| Hoffwn i ddilyn cyngor tîm deintyddol ar ba mor aml y dylwn i gael archwiliadau deintyddol | 21% |
| Dim ond ar gyfer triniaeth ddeintyddol frys yr wyf eisiau bod yn bresennol | 4% |
| Arall | 1% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Iechyd Deintyddol

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Gan feddwl am yr eitem neu'r cwrs triniaeth ddeintyddol ddiweddaraf a gawsoch yn ystod y 12 mis diwethaf, pa fath o ofal deintyddol a gawsoch chi?*

| | |
|---|---|
| Nid wyf wedi mynychu apwyntiad deintyddol yn ystod y 12 mis diwethaf | 27% |
| GIG y talais i amdano ac wedyn gofal deintyddol preifat ychwanegol | 3% |
| GIG a oedd yn rhad ac am ddim ac wedyn gofal deintyddol preifat ychwanegol | 4% |
| GIG yn unig y gwnes i dalu amdano | 22% |
| GIG yn unig oedd yn rhad ac am ddim | 18% |
| Preifat yn unig (gan gynnwys yswiriant deintyddol) | 23% |
| Arall | 2% |


*Ddim yn gwybod: 1% Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Iechyd Deintyddol

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a ddywedodd eu bod wedi derbyn gofal deintyddol preifat yn ystod y 12 mis diwethaf (n=347):

**Pan gawsoch eich eitem neu gwrs olaf gofal deintyddol preifat, a fyddech wedi dewis defnyddio gofal deintyddol y GIG pe bai ar gael yn lleol?***




*Data heb eu pwysoli; Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Iechyd Deintyddol

Gofynnwyd i’r cyfranogwyr a ddywedodd nad oeddent wedi mynd i apwyntiad deintyddol yn ystod y 12 mis diwethaf (n=286):

**Pa rai o'r rhain, os o gwbl, yw'r rhesymau pam nad ydych wedi bod at y deintydd yn ystod y 12 mis diwethaf? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)***

| | |
|---|---|
| Nid wyf yn credu bod angen mynd at y deintydd bob 12 mis | 7% |
| Does dim o'i le ar fy nannedd | 12% |
| Ni allaf ddod o hyd i ddeintydd GIG | 40% |
| Newidiodd fy deintydd i fod yn breifat, ac ni allaf fforddio ffioedd deintyddol preifat | 15% |
| Mae'n anodd mynd yn ôl ac ymlaen i'r deintydd | 8% |
| Ni allaf fforddio taliadau deintyddol y GIG | 16% |
| Rwy'n ofni mynd at ddeintyddion | 19% |
| Arall | 23% |

*Data heb eu pwysoli; Gwell gennyf beidio â dweud: 2%


Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Sgrinio’r Coluddyn

Canser y coluddyn yw'r trydydd canser mwyaf cyffredin yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae sgrinio canser y coluddyn yn cael ei gynnig yng Nghymru i bobl rhwng 55 a 74 oed. Mae pecyn prawf sgrinio coluddyn yn cael ei anfon drwy'r post i bobl ei gwblhau. Mae'r prawf yn cynnwys casglu sampl fach o bw a'i bostio i labordy i'w brofi.

## Cyn heddiw, oeddech chi wedi clywed am Sgrinio Coluddion Cymru?*#




*Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

#Gofynnwyd y cwestiwn hwn hefyd yn arolwg mis Chwefror-mis Mawrth, ac ni chafodd ei ailadrodd yn arolwg mis Awst i'r aelodau panel hynny a oedd wedi ymateb yn flaenorol. Felly, mae'r data a gyflwynir yma ar gyfer sampl lawn mis Awst (N=1,113) ac mae'n cynnwys ymatebion ar gyfer 501 o unigolion a atebodd y cwestiwn ym mis Chwefror-mis Mawrth a 612 a atebodd y cwestiwn ym mis Awst.

# Sgrinio'r Coluddyn

## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddai'n bwysig i mi ddarganfod yn gynnar a oedd gen i ganser y coluddyn | 2% | 1% | 3% | 14% | 80% |
| Dydw i ddim yn credu fy mod mewn perygl o ganser y coluddyn | 15% | 21% | 39% | 17% | 6% |
| Byddwn i'n teimlo'n gyfforddus yn siarad â'm teulu a'm ffrindiau am sgrinio'r coluddyn | 2% | 6% | 13% | 39% | 39% |
| Byddwn yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol am sgrinio'r coluddyn | 1% | 3% | 9% | 36% | 49% |
| Byddai'r rhan fwyaf o bobl rwy'n eu hadnabod yn cwblhau ac yn dychwelyd pecyn prawf sgrinio'r coluddyn pe bai un yn cael ei anfon atyn nhw | 1% | 7% | 24% | 38% | 27% |

*Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: ≤3%

# Sgrinio'r Coluddyn

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

**Os anfonwyd prawf sgrinio coluddyn atoch i'w gwblhau a'i ddychwelyd drwy'r post, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?***


| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn i'n poeni am yr hyn y gallai'r prawf ei ddarganfod | 1% | 2% | 6% | 21% | 69% |
| Byddwn i'n poeni am yr hyn y gallai'r prawf ei ddarganfod | 11% | 18% | 23% | 37% | 10% |
| Byddwn yn poeni y gallai'r pecyn prawf fod yn flêr neu'n anodd ei drin | 24% | 31% | 15% | 22% | 7% |
| Byddwn i'n pryderu y byddwn i'n gwneud y prawf yn anghywir | 21% | 32% | 19% | 21% | 5% |
| Byddwn yn teimlo cywilydd i gwblhau a dychwelyd y pecyn prawf | 44% | 36% | 9% | 7% | 4% |
| Byddwn yn rhy brysur i gwblhau a dychwelyd y pecyn prawf | 49% | 34% | 10% | 5% | 2% |
| Byddai fy nheulu a'm ffrindiau yn meddwl ei bod hi'n bwysig i mi gwblhau a dychwelyd y pecyn prawf | 1% | 2% | 12% | 35% | 50% |

*Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: ≤2%


# Sgrinio'r Coluddyn

## Cyn heddiw, oeddech chi'n gwybod unrhyw un o'r canlynol?*

Mae pawb 55-74 oed yng Nghymru yn gymwys i gael prawf sgrinio'r coluddyn, hyd yn oed os nad oes ganddynt unrhyw symptomau neu hanes teuluol o ganser y coluddyn.




Nid yw prawf sgrinio'r coluddyn positif o reidrwydd yn golygu bod gan berson ganser y coluddyn





*Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer y ddau gwestiwn: ≤4%

# Sgrinio’r Coluddyn

Gofynnwyd i’r cyfranogwyr 55-74 oed (n=333):

**Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ydych chi wedi derbyn a dychwelyd pecyn prawf sgrinio'r coluddyn?***




*Data heb eu pwysoli; Ddim yn gwybod: 2%; Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales


GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Rheoli Pwysau Ôl-enedigol

Gofynnwyd i aelodau'r panel am eu barn ar ba gymorth sydd ei angen i fenywod gyrraedd a/neu gynnal pwysau iachach yn y pum mlynedd gyntaf ar ôl rhoi genedigaeth. Defnyddir y term 'menywod' i gyfeirio at fenywod neu bobl sydd wedi rhoi genedigaeth.

# Rheoli Pwysau Ôl-enedigol

**Pa mor bwysig, os o gwbl, ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig i fenywod gael cymorth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gyrraedd a/neu gynnal pwysau iachach hyd at bum mlynedd ar ôl eu geni?***




*Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Rheoli Pwysau Ôl-enedigol

**Pryd ydych chi'n meddwl y dylai gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gael y sgwrs gynyaf am bwysau iach gyntaf gyda menyw ar ôl iddi roi genedigaeth?**

| | |
|---|---|
| 0-2 fis | 17% |
| 3-4 mis | 17% |
| 5-6 mis | 19% |
| 7-12 mis | 16% |
| Dros flwyddyn hyd at 5 mlynedd | 10% |
| Dydw i ddim yn credu y dylai gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ddechrau sgwrs am wysau iach o fewn y 5 mlynedd gyntaf | 8% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 13% |

# Rheoli Pwysau Ôl-enedigol

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales


**Faint o rôl, os o gwbl, ydych chi'n credu sydd gan y canlynol wrth gefnogi menywod i gyrraedd a/neu gynnal pwysau iachach ar ôl rhoi genedigaeth?***

| | Ddim o gwbl | Ychydig | Llawer | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Yr unigolyn | 2% | 10% | 74% | 10% |
| Teuluoedd | 9% | 35% | 39% | 13% |
| Gwasanaethau mamolaeth (e.e. bydwragedd) | 16% | 31% | 34% | 15% |
| Ymweliadau iechyd (e.e. ymwelwyr iechyd) | 12% | 31% | 39% | 13% |
| Meddygfeydd (e.e. meddygon teulu, nyrsys) | 11% | 36% | 36% | 12% |
| Fferyllfeydd cymunedol | 29% | 37% | 12% | 18% |
| Sefydliadau cymunedol a gwirfoddol (e.e. grwpiau cymorth cymheiriaid) | 12% | 41% | 25% | 19% |
| Gwasanaethau rheoli pwysau masnachol (e.e. byd colli pwysau) | 26% | 35% | 17% | 18% |
| Gwasanaethau rheoli pwysau'r GIG (e.e. yn cael eu darparu gan ddeietegydd) | 9% | 32% | 39% | 15% |

*Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: ≤5%

# Post-natal Weight Management

## Pa mor bwysig, os o gwbl, ydych chi'n credu bod adnoddau digidol fel apiau a gwefannau fel offeryn i gefnogi menywod i gyrraedd a/neu gynnal pwysau iachach?*





*Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Rheoli Pwysau Ôl-enedigol

Gofynnwyd i ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi rhoi genedigaeth yn ystod y 5 mlynedd diwethaf (n=70):

**Ers rhoi genedigaeth, a oes gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi cael sgwrs â chi am bwysau iach?***





*Data heb eu pwysoli; Gwell gennyf beidio â dweud: 0%

# Rheoli Pwysau Ôl-enedigol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod wedi rhoi genedigaeth yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac nad oeddent wedi cael sgwrs ynghylch pwysau iach gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol (n=55):

**Ydych chi'n meddwl y byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi cael sgwrs â chi am bwysau iach?***




*Data heb eu pwysoli; Gwell gennyf beidio â dweud: 4%

# Rheoli Pwysau Ôl-enedigol

Gofynnwyd i’r ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod wedi rhoi genedigaeth yn ystod y 5 mlynedd diwethaf (n=70):

**Pa mor fuan ar ôl geni, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y dylai menywod chwilio am gymorth o unrhyw fath ar gyrraedd a / neu gynnal pwysau iachach?***

| | |
|---|---|
| 0-2 mis | 6% |
| 3-4 mis | 14% |
| 5-6 mis | 14% |
| 7-12 mis | 37% |
| Mwy nag 1 i 5 mlynedd | 16% |
| Dydw i ddim yn credu y dylai menywod fod yn chwilio am gymorth ar reoli pwysau yn y 5 mlynedd gyntaf ar ôl rhoi genedigaeth | 9% |

*Data heb eu pwysoli; Gwell gennyf beidio â dweud: ≤4%

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

## Eisiau bod yn rhan o'r Panel?

Mae recriwtio i Banel Iechyd y Cyhoedd Amser i Siarad yn barhaus gan ein bod am siarad ag ystod eang o unigolion ledled Cymru.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn 16+ oed, dyma'ch cyfle i gael eich clywed.

**SiaradICCymru.com**

**01663 761976**

**SiaradICCymru@wales.nhs.uk**



Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales


icc.gig.cymru

SiaradICCymru@wales.nhs.uk

02920 227744

Iechyd Cyhoeddus Cymru

@IechydCyhoeddus


**Eisiau dysgu mwy am sut i fyw bywyd iach a llewyrchus?**

**Eisiau darganfod sut i helpu eich cymuned i ffynnu?**

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.**

World Health Organization Collaborating Centre • On Investment for Health and Well-being •

**Polisi ac Iechyd Rhyngwladol**

**Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO CC) ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

# Cyfranwyr y Prosiect

**Tîm y Prosiect:** Dr Catherine Sharp, Prof Karen Hughes

**Diolchiadau am Gymorth Prosiect Ehangach:**

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a LlesiantL Sumina Azam, Lewis Brace, Shona Whitaker, Nayana Varadaraj, Claire Murlis

Tîm Cyfathrebu: Daniel Owens, Chris Jones, Rebecca Hopkins, Danny Donavan, Laura Overton

Grŵp Cynghori Traws-Sefydliadol: Ashely Gould, Emily van de Venter, Amy Burgess, Dr Sikha de Souza, Heather Ramessur-Marsden, Susan Belfourd, Martine Price, Helen Rose-Jones, Elen de Lacy, Chris Roberts (Llywodraeth Cymru)

**Datblygu'r Holiadur**

Datblygwyd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn arolwg mis Awst mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

Yn arolwg mis Mehefin, gofynnwyd i aelodau'r panel pa bynciau iechyd y cyhoedd yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnwys mewn arolygon Amser i Siarad Iechyd y Cyhoedd yn y dyfodol. Dau bwnc a grybwyllwyd oedd adrannau argyfwng ac iechyd deintyddol. Yn dilyn hynny, cafodd y pynciau hyn eu cynnwys yn arolwg mis Awst.

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Atodiad

Demograffeg – Panel a Sampl

Dulliau

# Demograffeg y Sampl Panel

| | | Sampl Panel N=2,312 | | Sampl Arolwg N=1,113 | | Poblogaeth* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw* | Gwryw | 716 | 31% | 401 | 36% | 49% |
| | Benyw | 1555 | 67% | 700 | 63% | 51% |
| | Arall | 41 | 2% | 12 | 1% | - $ |
| Oedran (blynyddoedd)* | 16-29 | 361 | 16% | 190 | 17% | 21% |
| | 30-49 | 873 | 38% | 333 | 30% | 29% |
| | 50-69 | 723 | 31% | 373 | 34% | 31% |
| | 70+ | 355 | 15% | 217 | 19% | 19% |
| Cwintel amddifadedd^ | 1 (Mwyaf) | 376 | 16% | 188 | 17% | 19% |
| | 2 | 455 | 20% | 218 | 20% | 20% |
| | 3 | 477 | 21% | 226 | 20% | 21% |
| | 4 | 477 | 21% | 240 | 22% | 21% |
| | 5 (Lleiaf) | 527 | 23% | 241 | 22% | 20% |

*16+ oed Cyfwerthoedd poblogaeth o: ONS Amcangyfrifon o boblogaeth y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Canol 2020. www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland; ^Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymrudiweddariad-llawn-ir-mynegai-gyda-graddfeydd-2019; $Data heb fod ar gael.~Gwrthododd 65 o ymatebwyr 16-29 oed sydd wedi'u cynnwys yn sampl yr arolwg ymuno â'r panel ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn niferoedd sampl y panel; gweler dulliau.

Oherwydd diffyg cyfranogiad mewn tri neu fwy o arolygon yn olynol, tynnwyd 942 o bobl oddi ar y panel. Amlinellwyd y broses hon i aelodau'r panel yn y deunydd ymuno.

# Demograffeg y Sampl Panel

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

| | | Sampl Panel N=2,312 | | Sampl Arolwg N=1,113 | | Poblogaeth* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd^ | Gwyn | 2192 | 95% | 1066 | 96% | 95% |
| | Ethnigrwydd cymysg | 41 | 2% | 16 | 2% | 1% |
| | Asaidd neu Asaidd Pryndeinig | 31 | 1% | 11 | 1% | 2% |
| | Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Cymraeg neu Du Prydeinig | 18 | 1% | 8 | 1% | 1% |
| | Ethnigrwydd arall | 20 | 1% | 6 | 1% | 1% |
| | Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | <1% | 4 | <1% | - $ |
| Bwrdd Iechyd# | BIP Aneurin Bevan | 399 | 17% | 204 | 18% | 19% |
| | BIP Betsi Cadwaladr | 521 | 23% | 242 | 22% | 22% |
| | BIP Caerdydd a'r Fro | 410 | 18% | 187 | 17% | 16% |
| | BIP Cwm Taf Morgannwg | 290 | 13% | 127 | 11% | 14% |
| | BIP Hywel Dda | 313 | 14% | 155 | 14% | 12% |
| | BI Addysgu Powys | 105 | 5% | 63 | 6% | 4% |
| | BIP Bae Abertaw | 274 | 12% | 135 | 12% | 12% |

*16+ oed; ^Mae amcangyfrifon ethnigrwydd y boblogaeth ar gyfer pob oed oherwydd nad oes data ar gael ar gyfer trigolion 65+ oed nad ydynt yn Wyn; Ystadegau Cymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity; $$Data heb fod ar gael. #Amcangyfrifon poblogaeth 16+; Ystadegau Cymru, https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-HealthBoards/populationestimates-by-lhb-age; BIP – Bwrdd Iechyd Prifysgol.

# Dulliau - Recriwtio Cychwynnol

- Gosodwyd targed cychwynnol o 2,500 aelod panel er mwyn cael sampl arolwg misol o tua 1,000 ymateb; amcangyfrifwyd y byddai'r cyfraddau ymateb i arolygon bob yn ail fis yn 50% ar y mwyaf.
- I gyrraedd ystod o unigolion, defnyddiwyd tri dull recriwtio:
  - Ffon
  - Cyfryngau cymdeithasol
  - Wyneb yn wyneb
- Cafodd cwmni ymchwil i'r farchnad proffesiynol (DJS Research Limited) ei gaffael i gynnal y recriwtio a'r arolygon misol.
- Defnyddiwyd samplu cwota haenog wrth recriwtio dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Cwotâu wedi'u cymhwyso i:
  - Daearyddiaeth (Bwrdd Iechyd)
  - Oed
  - Rhyw
  - Cwintel Amddifadedd (MALC*)
- Roedd targedu cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar fylchau demograffig mewn recriwtio.
- Cwblhaodd aelodau'r panel arolwg recriwtio cychwynnol a gofynnir iddynt gwblhau arolygon 15-20 munud bob yn ail mis. Cynhelir arolygon ar-lein neu dros y ffôn bob yn ail fis, yn dibynnu ar ddewis y sawl sy'n cymryd rhan.

* Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Mae rhagor o fanylion methodolegol ar gael ym mhrotocol y prosiect.

# Dulliau – Arolwg Bob yn Ail Fis

- Ar gyfer pob arolwg, gwahoddir holl aelodau'r panel i gwblhau'r holiadur trwy'r dull y maent yn ei ffafrio (ffôn neu ar-lein). Rhoddir tair wythnos i aelodau'r panel gwblhau'r arolwg. O fewn yr amserlen honno, nodir bylchau yn y proffil demograffig sydd ei angen i gyflawni sampl sy'n cynrychioli oedran, rhyw, ethnigrwydd ac amddifadedd Cymru, ac anfonir nodiadau atgoffa i gwblhau'r arolwg.

Recriwtiwyd y cyfranogwyr a gwblhaodd arolwg mis Awst drwy'r dulliau canlynol:

| Dull Recriwtio | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 600 | 54% |
| Dros y ffôn | 358 | 32% |
| Wyneb yn wyneb (panel) | 90 | 8% |
| Wyneb yn wyneb (untro) | 65 | 6% |

- Er mwyn cynyddu cynrychiolaeth ar draws sampl yr arolwg, cynhelir tua 100 o gyfweliadau wyneb yn wyneb fesul arolwg gyda grwpiau poblogaeth a dargedir. Gwahoddir yr unigolion hyn i gwblhau'r arolwg ac fe'u gwahoddir yna i ymuno â'r panel. Felly mae cyfran yn gyfranogwyr sy'n cwblhau arolwg untro. Yn ogystal, rhoddir hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n targedu grwpiau poblogaeth penodol. Mae'r unigolion hyn yn darparu gwybodaeth ddemograffig ac yna'n cael eu gwahodd i gwblhau'r arolwg byw.

Cwblhaodd y cyfranogwyr arolwg mis Awst drwy'r dulliau canlynol:

| Dull Cyfranogiad | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 844 | 76% |
| Dros y ffôn | 144 | 13% |
| Wyneb yn wyneb | 125 | 11% |